Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Polisi Diogelu Corfforaethol

# (Oedolion a Phlant)



**Adolygwyd Awst 2020**

## Cynnwys


1 **Cyflwyniad**
2 **Cwmpas**
3 **Datganiad Polisi**
4 **Cyd-destun**
5 **Trefniant llywodraethu**
6 **Cydnabod a mynegi pryderon am oedolyn neu blentyn os oes amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod**
7 **Cam-drin domestig a chyflogaeth**
8 **Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd**
9 **Diogelu plant mewn Addysg**
10 **Diogelu mewn Cyflogaeth**
11 **Hyfforddiant**
12 **Cyfathrebu a'r Cyfryngau**
13 **Adolygiad**

### *Atodiadau*

A. **Diffiniadau sy'n berthnasol i ddiogelu oedolion mewn perygl gan gynnwys categorïau a dangosyddion cam-drin**

B. **Diffiniadau sy'n berthnasol i ddiogelu plant mewn perygl gan gynnwys categorïau a dangosyddion cam-drin**

C. **Achosion eraill o niwed:**
- **Camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE)**
- **Camfanteisio'n droseddol ar blant (CCE)**
- **Radicaleiddio**
- **Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)**
- **Priodas dan Orfod**
- **Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl**
- **Troseddau Casineb**

D. **Cam-drin a thrais domestig**

E. **Adroddiad diogelu – plant**

F. **Ffurflen cyfeirio oedolyn mewn perygl**

## 1. Cyflwyniad

*"Ystyr diogelu yw atal ac amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon."*
*Gweithdrefnau Diogelu Cymru*

Mae diogelu yn fusnes i bawb os ydynt yn gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran.

Mae'r polisi diogelu hwn yn datgan dyletswydd ac ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu a hybu iechyd, llesiant a hawliau dynol oedolion a phlant mewn perygl. Yn ogystal, sicrhau bod arferion effeithiol ar waith ledled y Cyngor a'r gwasanaethau a gomisiynir ganddo er mwyn i unigolion allu byw eu bywyd heb niwed, cam-drin ac esgeulustod.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chyfrifoldeb y Cyngor tuag at Oedolion a Phlant mewn perygl.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi:

Mae **oedolyn mewn perygl** yn oedolyn (18 oed neu hŷn) sy'n profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, sydd ag anghenion gofal a chymorth (os yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio); ac o ganlyniad i'r anghenion hynny nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu'r esgeulustod neu'r perygl ohono.

Mae **plentyn mewn perygl** yn blentyn (o dan 18 oed) sy'n profi neu sydd mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu fathau eraill o niwed; ac mae ganddo anghenion gofal a chymorth (os yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Er mai’r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy’n arwain y gwaith o ymdrin ag ymholiadau ynghylch pryderon am unigolion sydd mewn perygl o niwed efallai, mae gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu llesiant oedolion a phlant a all fod mewn perygl, beth bynnag fo'u rôl. Mae'r polisi hwn yn cwmpasu holl swyddogaethau a gwasanaethau'r Cyngor ac mae’n berthnasol i holl weithwyr y Cyngor, aelodau etholedig, gofalwyr maeth, unigolion sy'n ymgymryd â lleoliadau gwaith a gwirfoddolwyr sy'n gweithio i’r Cyngor. Hefyd contractwyr annibynnol sy'n gwneud gwaith ar ran y Cyngor.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd hefyd i sicrhau bod sefydliadau eraill a gomisiynir i ddarparu gwasanaethau ar ei ran yn ystyried yr angen am ddiogelu a hybu llesiant oedolion a phlant.

## 3. Datganiad Polisi

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth drwy ein holl wasanaethau ac rydym wedi ymrwymo i drin ein trigolion, cwsmeriaid, cyflogeion ac ymwelwyr â pharch, gan ddarparu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion unigol pobl.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024 y Cyngor yn sicrhau bod cydraddoldeb a thegwch yn parhau i fod wrth galon y ffordd mae'r cyngor yn cynllunio, yn darparu ac yn cyflwyno gwasanaethau pwysig i bobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae sicrhau bod pobl yn ein cymunedau’n gallu defnyddio gwasanaethau sy'n eu cefnogi i fyw heb ofni trais neu gam-drin, a chael eu trin â pharch, yn un o'n hamcanion cydraddoldeb.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei holl wasanaethau a gweithgareddau, gan sicrhau ein bod, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynrychioli ein huchelgais a'n hymrwymiad i'n dinasyddion a'n cyfraniad at saith nod llesiant Cymru fel yr amlinellir yn y Ddeddf.


Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2022

## 4. Cyd-destun

Mae'r polisi hwn yn ymgorffori rheoliadau a chyfarwyddyd o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r polisi'n adlewyrchu'r cyfrifoldebau cyffredinol sy'n cael eu datgan ar gyfer yr Awdurdod Lleol yn y Ddeddf, fel maent yn berthnasol i gyfrannu tuag at atal pobl rhag dioddef o gam-drin neu esgeulustod (Rhan 2) ac at wneud ymholiadau pan fo oedolyn neu blentyn mewn perygl o niwed efallai (Rhan 7).

*A*:

Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r gweithdrefnau diogelu cenedlaethol yn manylu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.



Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu, rydym yn gweithio gydag asiantaethau eraill o dan nawdd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg (BDCTM) yn bartneriaeth statudol sy'n cynnwys yr asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu oedolion a phlant mewn perygl yn ardal Cwm Taf Morgannwg. (Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr) Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gan asiantaethau yn y rhanbarth drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod pobl o bob oedran sy'n byw yn y rhanbarth yn cael eu hamddiffyn rhag cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn golygu atal cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed rhag digwydd.

Bwriad y Polisi Diogelu Corfforaethol yw ategu ac nid disodli unrhyw gyfrifoldebau a nodir mewn deddfwriaeth, polisi a chanllawiau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu.

## 5. Trefniadau Llywodraethu

Mae gan y Cyngor linellau atebolrwydd clir mewn perthynas â'i waith yn diogelu oedolion a phlant.

Mae hyn yn golygu:

- Y **Prif Weithredwr** sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod trefniadau cadarn ac effeithiol ar waith, sydd wedi'u hintegreiddio yng nghynlluniau strategol cyffredinol yr awdurdod, ac am roi arweiniad wrth ddatblygu, monitro ac adolygu trefniadau partneriaeth ar gyfer gwella canlyniadau i oedolion a phlant.
- Mae gan **Aelodau Etholedig** gyfrifoldeb i fod yn ymwybodol o gyfrifoldebau diogelu'r Cyngor a'u cefnogi, ac ystyried sut caiff y rhain eu cyflawni wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yw'r aelod arweiniol dynodedig ar gyfer diogelu.
- Mae **Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol** (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) yn arwain y gwaith o sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith, ar lefel partneriaeth leol a rhanbarthol,

sy'n hyrwyddo cydweithredu o ran diogelu oedolion a phlant mewn perygl o gael eu cam-drin. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 8 Cod Ymarfer ar gyfer Rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol).

- Bydd y **Penaethiaid Gwasanaeth** priodol drwy eu timau rheoli yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod yr holl ofynion statudol o ran diogelu a hyrwyddo llesiant oedolion a phlant yn cael eu hystyried yn briodol.
- Mae **Rheolwr y Grŵp, Diogelu a Sicrwydd Ansawdd** a'r **Rheolwr Diogelu ac Ansawdd** yn cefnogi rheolwyr a thimau gweithredol drwy ddarparu cyngor ac arweiniad wrth gymhwyso gweithdrefnau diogelu; glynu wrth bolisi; a chwarae rôl arweiniol mewn sefyllfaoedd cymhlethach.

## 6. Cydnabod a mynegi pryderon am oedolyn neu blentyn os oes amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod.

Dylai pawb fod yn effro i'r posibilrwydd o gam-drin. Gall unigolyn ddechrau poeni am ddiogelwch neu lesiant person arall mewn nifer o ffyrdd:

• Efallai y bydd y person yn dweud wrthych chi.
• Efallai y bydd y person yn dweud rhywbeth sy'n eich poeni.
• Gall trydydd parti leisio pryderon.
• Efallai y byddwch yn gweld rhywbeth – digwyddiad neu anaf neu arwydd arall.

Er y bydd gan aelodau, cyflogeion, gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaethau dan gontract Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr lefelau amrywiol o gyswllt ag oedolion a phlant mewn perygl fel rhan o'u cyswllt â'r Cyngor, dylai pawb fod yn ymwybodol o ddangosyddion posib cam-drin ac esgeuluso a bod yn glir ynghylch beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Nid cyfrifoldeb unrhyw un unigolyn yw penderfynu a yw cam-drin wedi digwydd neu a yw unigolyn mewn perygl o niwed; fodd bynnag, mae ganddo gyfrifoldeb i weithredu os oes ganddo unrhyw bryderon.

Mae’r tudalennau Diogelu Corfforaethol ar y we yn darparu gwybodaeth am sut i roi gwybod am bryder am blentyn neu oedolyn mewn perygl, yn ogystal â gwybodaeth ac adnoddau cyffredinol am ddiogelu.

## Oedolion mewn perygl

Camau corfforol ar unwaith i amddiffyn yr oedolyn mewn perygl. Gallai hyn olygu cysylltu â'r gwasanaethau brys. Os nad oes angen cymryd camau ar unwaith i amddiffyn yr oedolyn, dylai'r cyflogai hysbysu ei reolwr llinell neu berson dynodedig arall. Hefyd, llenwch **Ffurflen Atgyfeirio Oedolyn mewn Perygl (Atodiad E).** Dylid e-bostio atgyfeiriadau at adultsafeguardingmash@bridgend.gov.uk

Gellir cysylltu â'r Tîm Diogelu Oedolion i drafod pryderon gydag unigolion a bydd yn rhoi cyngor ar unrhyw gamau gweithredu y dylid eu rhoi ar waith wedyn.

## Plant a phobl ifanc

Dylid cyfeirio unrhyw bryderon am ddiogelwch a llesiant plant a phobl ifanc at **Dîm Asesu a Chyngor Cychwynnol (IAA) (Diogelu Plant) MASH.**

**Ffôn:** 01656 642320

**E-bost:** mashcentra@bridgend.gov.uk

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth ar lafar a rhaid ei dilyn yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio cais am help sydd yn **Atodiad D**. Mae’r dogfennau atgyfeirio’n cael eu hadolygu.

## 7. Cam-drin domestig a chyflogaeth

Gall trais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol gynnwys pob math o gam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol, a gall ddigwydd mewn pob math o berthnasoedd agos, gan gynnwys perthnasoedd o'r un rhyw.

Nid yw cam-drin domestig yn fater preifat a gall effeithio'n fawr ar fywyd gwaith unigolyn.

Mae protocol y Cyngor ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn manylu ar ei ymrwymiad i ddarparu ymateb yn y gweithle i gam-drin domestig a thrais.

Mae'r protocol hwn ynghyd â'r Canllawiau Cam-drin Domestig, Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol i Reolwyr a Chyflogwyr yn nodi'r camau y gellir eu rhoi ar waith yn y gweithle i gefnogi cyflogeion a'u helpu i deimlo'n ddiogel yn y gwaith. Mae hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o risgiau a chanlyniadau yn y gweithle.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn pennu dyletswydd i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol baratoi a chyhoeddi strategaethau sydd â'r nod o roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, trais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yn cyd-fynd â'r Ddeddf mae fframwaith hyfforddi cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i holl gyflogeion awdurdodau lleol gael hyfforddiant (priodol i'w rôl) sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y fframwaith. I'r rhan fwyaf o staff bydd hyn yn golygu cwblhau modiwl e-ddysgu lefel ymwybyddiaeth.
Cyfeiriadau:
**Protocol Cam-drin Domestig, Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol**
**Canllaw ar Gam-drin Domestig, Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol i Reolwyr a Chyflogeion**

## 8. Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd

Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol i ddiogelu a hyrwyddo llesiant oedolion a phlant mewn perygl.

Dylai cyflogeion ofyn am gyngor gan eu rheolwr llinell os oes ganddynt unrhyw amheuaeth, heb ddatgelu pwy yw'r person os yw hynny'n bosib.

Ceir saith rheol euraid ar gyfer rhannu gwybodaeth a ddatblygwyd gan Lywodraeth EM, 2018. Y rhain yw

1. Nid yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a'r gyfraith hawliau dynol yn rhwystrau sy'n atal rhannu gwybodaeth os oes posib cyfiawnhau gwneud hynny; yn hytrach maent yn darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am unigolion byw yn cael ei rhannu'n briodol. Beth ydych chi wedi'i rannu, gyda phwy, ac at ba ddiben.
2. Byddwch yn agored ac yn onest gyda'r unigolyn (a/neu ei deulu os yw hynny'n briodol) o'r dechrau un ynghylch pam, beth, sut a gyda phwy y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu, neu y gellai gael ei rhannu, a gofyn am ei gytundeb, oni bai ei bod yn anniogel neu'n amhriodol gwneud hynny.
3. Gofynnwch am gyngor gan ymarferwyr eraill, neu eich arweinydd llywodraethu gwybodaeth, os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch rhannu'r wybodaeth dan sylw, heb ddatgelu pwy yw'r unigolyn os yw hynny'n bosib.
4. Os yw'n bosib, rhannwch wybodaeth gyda chaniatâd ac, os yw'n bosib, parchwch ddymuniadau'r rhai nad ydynt yn rhoi eu caniatâd i'w gwybodaeth gael ei rhannu. O dan y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 cewch rannu gwybodaeth heb ganiatâd os ydych yn credu bod sail gyfreithiol i wneud hynny, fel os yw diogelwch mewn perygl. Bydd angen i chi seilio eich barn ar ffeithiau'r achos. Pan fyddwch yn rhannu neu'n gofyn am wybodaeth bersonol gan rywun, byddwch yn glir ynghylch ar ba sail rydych yn gwneud hynny. Os nad oes gennych ganiatâd, cofiwch efallai na fydd unigolyn yn disgwyl i wybodaeth gael ei rhannu.

5. Ystyriwch ddiogelwch a llesiant: seiliwch eich penderfyniadau rhannu gwybodaeth ar ystyriaethau am ddiogelwch a llesiant yr unigolyn ac eraill a allai gael eu heffeithio gan ei weithredoedd.
6. Angenrheidiol, cymesur, perthnasol, digonol, cywir, amserol a diogel: sicrhewch bod angen yr wybodaeth rydych yn ei rhannu at y diben rydych yn ei rhannu, ei bod yn cael ei rhannu â'r unigolion hynny y mae angen iddynt ei chael yn unig, ei bod yn gywir ac yn gyfoes, ei bod yn cael ei rhannu'n amserol, ac yn cael ei rhannu'n ddiogel (edrychwch ar yr egwyddorion).
7. Cadwch gofnod o'ch penderfyniad a'r rhesymau drosto – boed i rannu gwybodaeth ai peidio. Os byddwch yn penderfynu rhannu, gwnewch gofnod o hynny.

*Sicrhawyd o Weithdrefnau Diogelu Cymru*

# 9 Diogelu plant mewn Addysg

Mae Adran 175 Deddf Addysg 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu ysgolion a gynhelir fod â threfniadau yn eu lle i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant.

Rhaid i Gyrff Llywodraethu a staff ysgolion ystyried y canllawiau wrth gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant.

Fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae dyletswydd i roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am bob pryder ynghylch diogelu.

Dylai ysgolion fod â Pholisi Diogelu. Mae polisi enghreifftiol wedi cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio gan ysgolion ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg Polisi Diogelu Ysgolion CTM.

Dylid darllen polisi diogelu ysgol ochr yn cohr â Chanllawiau Llywodraeth Cymru (2020) Cadw dysgwyr yn ddiogel – rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002.

## 10. Diogelu mewn Cyflogaeth

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i arferion recriwtio diogel ac mae'n cydnabod bod hyn yn cyd-fynd â dull corfforaethol cyffredinol o ddiogelu ar draws ystod o swyddogaethau y mae’n ofynnol iddynt weithredu gyda'i gilydd er mwyn bod yn effeithiol.

Mae'r Protocol Recriwtio a Dethol a Chanllawiau’r Rheowyr yn nodi'r egwyddorion a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn wrth ymgymryd ag unrhyw weithgaredd recriwtio a dethol. Mae hyn yn cynnwys dilysu cyn cyflogi sy'n golygu sefydlu hanes cyflogaeth llawn; prawf adnabod; geirda boddhaol; asesu iechyd; gwirio cymwysterau; archwiliadau lloches a mewnfudo; ac archwiliadau cofnodion troseddol gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### Archwiliadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiogelu llesiant y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau drwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn effeithiol ac mae ganddo ddyletswydd o ofal statudol tuag at aelodau agored i niwed mewn cymdeithas. Mae archwiliadau cofnodion troseddol yn un rhan o arfer recriwtio cadarn ac fe'u cynhelir gydag archwiliadau cyn cyflogaeth eraill, er mwyn asesu addasrwydd unigolyn.

Mae Polisi’r DBS yn berthnasol i gyflogeion, gwirfoddolwyr, lleoliadau gwaith ac aelodau etholedig. Yn ogystal, mae gofalwyr maeth a darpar rieni mabwysiadu, lleoliadau myfyrwyr, trefniadau trwyddedu a chludiant i'r ysgol ac unrhyw swyddi eraill a reoleiddir yn dod o dan ddarpariaethau'r polisi hwn. Hefyd, mae'n berthnasol i'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan gyrff llywodraethu.

Mae polisi'r DBS yn darparu gwybodaeth am drefniadau sy'n berthnasol i'r rhai nad ydynt yn cael eu cyflogi neu’n ymwneud yn uniongyrchol â’r Cyngor. Mae'r trefniadau canlynol yn berthnasol:

### Honiadau neu bryderon am gyflogeion

Mae amrywiaeth o bolisïau a chanllawiau wedi'u sefydlu sy'n annog ac yn cefnogi staff i fynegi pryderon am ddiogelwch a llesiant oedolion a phlant mewn perygl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor a’r Polisi Chwythu'r Chwiban ar gyfer (Ysgolion) yn rhoi arweiniad ar gyfer staff i roi gwybod am bryderon am gyflogeion/contractwyr eraill neu am y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu.

Mae Polisi Disgyblu'r Cyngor (Canllawiau Disgyblu Rheolwyr) yn cydnabod y gall mynd yn groes i ddisgyblu, mewn rhai sefyllfaoedd, ei gwneud yn ofynnol i weithredu gweithdrefnau adrannol penodol i ymdrin â materion o natur benodol e.e. diogelu oedolion a phlant mewn perygl ac ati.

O dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 mae dyletswydd gyfreithiol i gyfeirio gwybodaeth at y DBS os caiff unigolyn ei ddiswyddo neu ei atal rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion (mewn gweithgaredd a ddiffinnir yn gyfreithiol fel Gweithgaredd a Reoleiddir) am ei fod yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gyfeirio gwybodaeth at y DBS fel darparwr gweithgareddau a reoleiddir ac fel awdurdod lleol. Yn yr un modd, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gyfeirio gwybodaeth benodol am ymddygiad cyflogeion a materion sy'n ymwneud â diogelu at gyrff rheoleiddio proffesiynol fel Cyngor Gofal Cymru a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

**Honiadau Diogelu**

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am y rhai y mae eu gwaith, naill ai swydd gyflogedig neu waith gwirfoddol, yn dod â hwy i gysylltiad ag oedolion neu blant mewn perygl. Mae hefyd yn cynnwys unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu am oedolion neu blant sydd angen gofal a chymorth ac y mae eu cyflogaeth neu eu gwaith gwirfoddol yn dod â hwy i gysylltiad ag oedolion neu blant mewn perygl.

Mae’n fwriad i'r gweithdrefnau hyn gefnogi gweithdrefnau disgyblu mewnol ac maent yn rhoi arweiniad ar ymdrin yn briodol ag unrhyw bryderon neu honiadau o gam-drin

proffesiynol, esgeulustod neu niwed a sicrhau yr ymdrinnir â phob honiad am gam-drin a wneir yn erbyn staff neu wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl mewn ffordd deg, cyson ac amserol.

## 11 Hyfforddiant

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo ymrwymiad i sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth o'u rôl a'u cyfrifoldebau wrth weithio gydag oedolion neu blant mewn perygl a'r gofyniad i roi gwybod am bryderon.

Mae pob rheolwr llinell yn gyfrifol am sicrhau bod ei staff, gwirfoddolwyr ac unigolion sy'n ymgymryd â lleoliadau gwaith yn cael hyfforddiant diogelu priodol.

Mae'n ofynnol i bob cyflogai gwblhau'r modiwl e-ddysgu diogelu lefel ymwybyddiaeth. Gellir gweld hwn ar y wefan dysgu a datblygu corfforaethol ar y fewnrwyd Bridgend Learning Pool Website

Mae cyfleoedd hyfforddi unigol a rhyngasiantaeth mwy arbenigol ar gael i'r rhai sy'n gweithio'n gyson gyda phlant neu oedolion mewn perygl ar lefel sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldebau. Mae gwybodaeth am hyfforddiant ar gael ar Dudalennau Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) y Wefan Dysgu a Datblygu Corfforaethol Bridgend Learning Pool Website

## 12. Cyfathrebu a'r cyfryngau

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau gwybodaeth sy'n ymwneud â materion diogelu, er enghraifft, negeseuon i staff, datganiadau i'r wasg ac ati a dylid cynnwys y tîm cyfathrebu. Ni ddylai unrhyw aelod o staff gysylltu â'r wasg yn uniongyrchol na phostio gwybodaeth drwy'r rhyngrwyd.

**Defnyddio cyfryngau cymdeithasol**

Mae gan gyflogeion gyfrifoldeb i ymddwyn yn eu bywydau preifat mewn ffordd nad yw'n peryglu eu sefyllfa yn y gweithle nac yn cwestiynu eu haddasrwydd i weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl. Mae gan y Cyngor brotocol yn ei le sy'n ymdrin â chyfrifoldebau cyflogeion wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol naill ai at ddefnydd personol neu broffesiynol. Cyfeiriad: Protocol ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol

## 13 Adolygiad

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried unrhyw newidiadau i / neu gyflwyno rheoliadau, canllawiau a deddfwriaeth berthnasol newydd, a chanllawiau a gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Atodiad A**

## Diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i ddiogelu oedolion mewn perygl

### Oedolyn

Yn disgrifio unrhyw un dros 18 oed.

### Oedolyn mewn perygl

Oedolyn sy'n profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, sydd ag anghenion gofal a chymorth (os yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac o ganlyniad i'r anghenion hynny nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu'r esgeulustod neu'r perygl ohono.

Cam-drin:

- gall fod yn gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (gan gynnwys lladrad, twyll, pwysau am arian, camddefnyddio arian)
- gall ddigwydd mewn unrhyw leoliad, boed mewn tŷ preifat, sefydliad neu unrhyw le arall.

Esgeulustod:

Mae hyn yn disgrifio methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person).

Gall ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau, fel tŷ preifat, darpariaeth breswyl neu ofal dydd.

Edrychwch ar Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Arwyddion a Dangosyddion Cam-drin ac Esgeulustod Posib mewn Oedolion Mewn Perygl

### Dyletswydd statudol i roi gwybod

At ddibenion y canllawiau statudol, bydd dyletswydd i adrodd i'r awdurdod lleol yn cael ei ystyried fel atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol sydd, ochr yn ochr â'r heddlu, â phwerau statudol i ymchwilio i amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod.

Dylid gwneud adroddiad pan fo pryderon am oedolyn mewn perygl sy'n:

1. profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso,
2. angen gofal a chymorth (os yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
3. o ganlyniad i'r anghenion hynny nid yw’n gallu amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu'r esgeulustod neu'r perygl ohono.

(Adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)

Mae defnyddio'r term 'mewn perygl' yn golygu nad oes angen i gam-drin neu esgeulustod gwirioneddol fod wedi digwydd, yn hytrach dylid ystyried ymyriadau cynnar i amddiffyn oedolyn mewn perygl o gam-drin, er mwyn atal cam-drin ac esgeulustod gwirioneddol.

**Atodiad B**

# Diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i ddiogelu plant mewn perygl

## Plentyn

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Canllawiau cysylltiedig yn diffinio 'plentyn' fel person sydd o dan 18 oed.

## Plentyn mewn perygl

Mae Adran 130 (4) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio plentyn mewn perygl fel plentyn sy'n:

1. Profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu fathau eraill o niwed;
2. Angen gofal a chymorth (os yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Mae'n bwysig nodi:

- Mae defnyddio'r term 'mewn perygl' yn golygu nad oes angen i gam-drin neu esgeulustod gwirioneddol fod wedi digwydd, yn hytrach dylid ystyried ymyriadau cynnar i amddiffyn plentyn mewn perygl, er mwyn atal cam-drin ac esgeulustod gwirioneddol.
- Mae'r ddau amod sy'n angenrheidiol i ddangos bod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn sicrhau bod amddiffyniad yn cael ei ddarparu i'r rhai ag anghenion gofal a chymorth sydd *hefyd* angen camau gweithredu i sicrhau eu diogelwch yn y dyfodol;
- Gall risg o gam-drin neu esgeulustod fod yn ganlyniad i un pryder neu'n ganlyniad i ffactorau cronnol.

**Niwed**

Diffinnir niwed fel:

- trin yn wael ac mae hyn yn cynnwys cam-drin rhywiol, esgeulustod, cam-drin emosiynol a cham-drin seicolegol
- amharu ar iechyd corfforol neu feddyliol (gan gynnwys dioddef o weld neu glywed person arall yn dioddef triniaeth wael)
- nam ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol (gan gynnwys dioddef o weld neu glywed person arall yn dioddef triniaeth wael).

**Mathau o niwed**

Mae'r canlynol yn rhestr heb fod yn gynhwysfawr o enghreifftiau ar gyfer pob un o'r categorïau o niwed, cam-drin ac esgeulustod a geir yng nghyfrol 5 Cydweithio i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Ddiogelu Plant mewn Perygl

- **Cam-drin corfforol** - taro, curo, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, atal gormodol, neu sancsiynau amhriodol;
- **Cam-drin emosiynol/seicolegol -** bygythiadau o niwed neu gefnu, rheolaeth drwy orfodaeth, cywilyddio, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu atal rhag defnyddio gwasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, tyst i gam-drin eraill;
- **Cam-drin rhywiol -** gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, os yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol; gweithredoedd heb gyswllt, fel cynnwys plant wrth edrych ar neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol;
- **Cam-drin ariannol -** bydd y categori hwn yn llai cyffredin i blant ond gallai’r dangosyddion fod fel a ganlyn:
- peidio â diwallu eu hanghenion am ofal a chymorth a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol; neu
- cwynion bod eiddo personol ar goll.

- **Esgeulustod** - methu diwallu anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at amharu ar iechyd neu ddatblygiad

**Niwed sylweddol**

Pryderon am niwed sylweddol tebygol neu wirioneddol i blentyn yw'r trothwy ar gyfer cychwyn [ymholiadau a47 o dan Ddeddf Plant 1989]

Nid oes diffiniad statudol o niwed sylweddol. Felly, rhaid i ymarferwyr:

*'Os yw'r cwestiwn ynghylch a yw niwed yn sylweddol yn effeithio ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, rhaid i iechyd neu ddatblygiad y plentyn gael ei gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol mewn plentyn tebyg* Deddf Plant 1989 (Adran 31(9).

**Dyletswydd statudol i roi gwybod**

At ddibenion y canllawiau statudol, bydd dyletswydd i adrodd i'r awdurdod lleol yn cael ei ystyried fel atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol sydd, ochr yn ochr â'r heddlu, â phwerau statudol i ymchwilio i amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod

Defnyddir y term ymarferydd fel term cyffredinol i ddisgrifio unrhyw un sydd mewn cyflogaeth â thâl yn ogystal â gwirfoddolwyr di-dâl.

Rhaid cyflwyno adroddiad pan mae gan ymarferydd bryderon am blentyn o dan 18 oed sydd:

- yn profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu fathau eraill o niwed **ac**
- ag anghenion gofal a chymorth (os yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Os oes gan unrhyw berson wybodaeth, pryderon neu amheuon bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed, ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu sydd â dyletswyddau a phwerau statudol i wneud ymholiadau ac ymyrryd pan fo angen.

**Atodiad C**

## Mathau eraill o niwed

Gall risg o niwed gwirioneddol neu bosib arall i blentyn neu oedolyn ddeillio hefyd o:

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)**

Math o gam-drin rhywiol yw CSE sy'n gallu cynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgaredd rhywiol gyda phlentyn; cynhyrchu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy'n cynnwys plant hyd at 18 oed.

Mae'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid. Gall y cyfnewid gynnwys rhoi neu atal rhywbeth; fel ymatal rhag trais neu fygythiadau i gam-drin person arall.

Efallai y bydd hwylusydd sy'n derbyn rhywbeth yn ychwanegol at neu yn lle'r plentyn sy’n dioddef o gamfanteisio.

Efallai na fydd plant yn deall bod natur y berthynas neu'r cyfnewid yn gamfanteisio. Efallai y bydd plant yn teimlo eu bod wedi rhoi caniatâd.

**Camfanteisio’n Droseddol ar Blant (CCE)**

Math o gam-drin plant yw CCE, sy'n cynnwys camfanteisio troseddol ac mae angen ymateb diogelu.

Mae plant (y rhai hyd at 18 oed) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol gan gynnwys symud cyffuriau neu arian, sy'n arwain at enillion personol i unigolyn, grŵp neu gang troseddol trefnus.

Mae'n golygu denu a/neu rym. Mae’n cynnwys elfen o gyfnewid a gall fod yn gamfanteisio hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol. Gall gynnwys dulliau cydymffurfio sy'n seiliedig ar rym a/neu ddenu ac yn aml mae trais neu fygythiadau o drais yn cyd-fynd ag ef. Nodweddir CCE gan ryw fath o anghydbwysedd pŵer o blaid y rhai sy'n cyflawni'r camfanteisio.

## Radicaleiddio

### Plant

Gall plant fod yn agored i wahanol safbwyntiau a derbyn gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Efallai y bydd rhai o'r safbwyntiau hyn yn cael eu hystyried yn radical neu'n eithafol.

Radicaleiddio yw'r broses a brofir gan bobl i gefnogi delfrydau gwleidyddol, crefyddol neu ddelfrydau eraill cynyddol eithafol. Gall hyn eu harwain i gefnogi eithafiaeth dreisgar a therfysgaeth.

Gall unrhyw un gael ei radicaleiddio, ond mae ffactorau fel bod yn hawdd dylanwadu neu wneud argraff arnynt, wneud plant a phobl ifanc yn arbennig o agored i niwed.

Gall plant sydd mewn perygl o radicaleiddio fod â lefel isel o hunan-barch neu efallai eu bod wedi dioddef o fwlio neu wahaniaethu. Efallai eu bod yn teimlo fel a ganlyn:

- ynysig ac unig neu eisiau perthyn
- anhapus amdanynt eu hunain a beth mae eraill yn ei feddwl ohonynt
- embaras neu fod eraill yn eu barnu am eu diwylliant, rhywedd, crefydd neu hil
- dan straen neu'n isel
- wedi diflasu ar gael eu bwlio neu eu trin yn wael gan bobl eraill neu gan gymdeithas
- dig gyda phobl eraill neu'r llywodraeth
- dryslyd ynghylch beth maent yn ei wneud
- dan bwysau i sefyll dros bobl eraill sy'n cael eu gormesu

Nid yw radicaleiddio'n digwydd dros nos. Mae'n broses raddol, felly efallai nad yw'r bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio'n sylweddoli beth sy'n digwydd.

### Oedolion

Gall oedolion fod yn agored i radicaleiddio. Un o nodweddion cyffredin radicaleiddio yw nad yw'r oedolyn yn deall natur ffrwydrol yr hyn sy'n digwydd ac nad yw'n ystyried ei hun fel dioddefwr camfanteisio neu baratoi ar gyfer diben penodol.

Gall pobl 'hunanradicaleiddio', drwy ddarllen neu wrando ar lenyddiaeth neu siaradwyr eithafol. Yn fwy cyffredin, efallai y bydd unigolyn neu grŵp yn ceisio darbwyllo eraill i fabwysiadu eu barn.

Mae'r broses radicaleiddio’n unigryw i bob person sy'n rhan ohoni, ac yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd yn achosi niwed difrifol.

**Atal**

Mae Adran 26 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (y Ddeddf) yn pennu dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol wrth iddo ymarfer ei swyddogaethau, i roi “ystyriaeth briodol i'r angen am atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth.”.

Nod y Strategaeth Atal yw diogelu a chefnogi pobl agored i niwed i'w hatal rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.

Mae Atal yn rhan o strategaeth gwrth-derfysgaeth y llywodraeth, CONTEST, sy'n ceisio lleihau'r risg i'r DU a'i dinasyddion a'i buddiannau dramor o derfysgaeth.

Ffocws Atal yw’r bygythiad sylweddol a achosir gan derfysgaeth ryngwladol a'r rhai yn y DU sy'n cael eu hysbrydoli gan hynny. Mae hefyd yn ymwneud â lleihau bygythiadau, risgiau a gwendidau a achosir gan eithafwyr domestig.

Mae Atal yn cynnwys tri amcan:

1. mynd i’r afael ag achosion radicaleiddio ac ymateb i her ideolegol terfysgaeth
2. diogelu a chefnogi'r rhai sy’n wynebu’r risg fwyaf o radicaleiddio drwy ymyrraeth gynnar, eu hadnabod a chynnig cefnogaeth
3. galluogi'r rhai sydd eisoes wedi ymwneud â therfysgaeth i ymddieithrio ac adsefydlu

Mae rhagor o wybodaeth am Atal a gwrthderfysgaeth ar gael ar wefan Partneriaeth diogelwch cymunedol CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

### Anffurfio organau cenhedlu benywod

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn weithdrefn lle mae organau cenhedlu benywod yn cael eu torri, eu hanafu neu eu newid yn fwriadol, ond nid oes rheswm meddygol dros wneud hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y GIG:

Anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) – Y GIG

Gwnaeth Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (2003) FGM yn drosedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (mae gan yr Alban ei chyfraith ei hun ar FGM), gan gynnwys cyflawni FGM naill ai yn y DU neu fynd â merch dramor i'w gyflawni. Diwygiwyd y gyfraith gan y Ddeddf Troseddau Difrifol (2015), a ychwanegodd bwerau ychwanegol at Ddeddf 2003.

Mae gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, athrawon a darlithwyr rwymedigaeth gyfreithiol i hysbysu'r heddlu os cânt wybod gan blentyn bod FGM wedi'i gyflawni arnynt, neu os byddant yn sylwi ar arwyddion corfforol o FGM. Mae'r ddyletswydd yn ddyletswydd bersonol ac ni ellir ei throsglwyddo i berson arall. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol o dan y Ddeddf a dylid ei gyflawni ochr yn ochr â'r weithdrefn ddiogelu.

Hysbysu Gorfodol am Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod – gwybodaeth weithdrefnol

### Priodas dan Orfod

Mae priodas dan orfod yn anghyfreithlon yn y DU. At ddibenion y gyfraith droseddol yng Nghymru a Lloegr, mae priodas dan orfod yn un sy'n digwydd heb gydsyniad llawn a rhydd un parti neu'r ddau.

Mae hyn yn cynnwys:

- mynd â rhywun dramor i'w gorfodi i briodi (os bydd y briodas dan orfod yn digwydd ai peidio)
- priodi rhywun nad oes ganddo'r gallu meddyliol i gydsynio i'r briodas (os yw dan bwysau ai peidio)

Gall priodas dan orfod olygu gorfodi merched a dynion i briodi. Mae priodas dan orfod yn drosedd gudd, lle mae teuluoedd a chymunedau'n cynllwynio, gan gredu eu bod yn cynnal traddodiadau diwylliannol ac yn diogelu 'anrhydedd' teuluol a chymunedol. Mae teuluoedd yn credu eu bod yn amddiffyn eu plant rhag perthynas 'anaddas' neu eu bod yn creu teuluoedd cadarnach ac yn gwarchod credoau diwylliannol neu grefyddol.

Gall gorfodi rhywun i briodi arwain at ddedfryd o hyd at 7 mlynedd yn y carchar.

Ceir rhagor o wybodaeth am briodasau dan orfod a gorchmynion amddiffyn priodasau dan orfod ar y wefan Priodas dan orfod - GOV.UK.

**Caethwasiaeth Fodern / Masnachu Pobl**

Caethwasiaeth fodern yw camfanteisio'n anghyfreithlon ar bobl er budd personol neu fasnachol. Mae'n cwmpasu ystod eang o gam-drin a chamfanteisio gan gynnwys camfanteisio rhywiol, gwasanaeth domestig, llafur gorfodol, camfanteisio troseddol a chynaeafu organau.

Gall dioddefwyr caethwasiaeth fodern fod yn unrhyw oedran, rhywedd, cenedligrwydd ac ethnigrwydd. Maent yn cael eu twyllo neu eu bygwth i waith ac efallai eu bod yn teimlo na allant adael na rhoi gwybod am y drosedd oherwydd ofn neu fygythiadau. Efallai nad ydynt yn deall eu bod yn ddioddefwyr.

Gall caethwasiaeth fodern yn y DU fod ar sawl ffurf, gan gynnwys camfanteisio rhywiol gorfodol, caethwasiaeth ddomestig neu lafur gorfodol ar ffermydd, ym maes adeiladu, siopau, bariau, bariau ewinedd, golchi ceir neu weithgynhyrchu.

Llafur gorfodol yw'r math mwyaf cyffredin o gaethwasiaeth yn y DU. Math cynyddol o gaethwasiaeth yw masnachu mewn troseddu. Yn y DU, mae'n cael ei ysgogi gan fasnachu plant Prydeinig yn bennaf, a'u gorfodi i ymwneud â 'chyffurlinellau' a masnachu cyffuriau a masnachu gwladolion o Fietnam sy'n gorfod gweithio i gynhyrchu canabis.

**Arwyddion o gaethwasiaeth.** Gallai rhywun mewn caethwasiaeth fod fel a ganlyn:

- ymddangos fel ei fod o dan reolaeth rhywun arall ac yn amharod i ryngweithio ag eraill
- heb fathodyn neu ddogfennau adnabod personol
- ychydig o eiddo personol sydd ganddo, gwisgo'r un dillad bob dydd neu wisgo dillad anaddas ar gyfer gwaith
- methu symud o gwmpas yn rhydd
- amharod i siarad â dieithriaid neu'r awdurdodau
- ymddangos yn ofnus, yn ei gragen, neu'n dangos arwyddion o gam-drin corfforol neu seicolegol
- gollwng a chasglu ar gyfer gwaith yn yr un ffordd bob amser, yn enwedig ar adegau anarferol, h.y. yn gynnar iawn neu'n hwyr yn y nos.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i hysbysu pan nodir bod unrhyw berson yng Nghymru a Lloegr yn dioddef o gaethwasiaeth neu fasnachu pobl. Nodir y "ddyletswydd i hysbysu" yn Adran 52 *Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015*

Ceir rhagor o wybodaeth am gaethwasiaeth fodern ar wefan y Llywodraeth Caethwasiaeth fodern - GOV.UK

## Troseddau / Digwyddiadau Casineb

Gellir defnyddio'r term **trosedd casineb** i ddisgrifio amrywiaeth o ymddygiad troseddol lle mae'r cyflawnwr yn cael ei symbylu gan elyniaeth neu'n dangos casineb tuag at anabledd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol y dioddefwr.

Gelwir yr agweddau hyn ar hunaniaeth unigolyn yn 'nodweddion gwarchodedig'. Gall trosedd casineb gynnwys cam-drin geiriol, bygythiadau, erlid, aflonyddu, ymosod a bwlio, yn ogystal â niwed i eiddo. Hefyd gall y cyflawnwr fod yn ffrind, yn ofalwr neu'n rhywun mae’r dioddefwr yn ei adnabod ac sy'n manteisio ar ei berthynas â'r dioddefwr er budd ariannol neu ryw ddiben troseddol arall.

**Digwyddiad casineb** yw unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr, neu unrhyw un arall, yn credu ei fod yn seiliedig ar ragfarn rhywun tuag ato oherwydd ei hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu am ei fod yn drawsryweddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am Droseddau Casineb (gan gynnwys sut i roi gwybod am droseddau casineb) ar wefan Partneriaeth Diogelwch Cymunedol – CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

**Atodiad D**

## Trais a cham-drin domestig

Y diffiniad trawslywodraethol o drais a cham-drin domestig yw:

unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o reoli, gorfodi, ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin rhwng y rhai 16 oed a hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu waeth beth fo'u rhywedd neu rywioldeb. Gall y cam-drin gwmpasu, ond nid yw wedi'i gyfyngu i’r canlynol:

- seicolegol
- corfforol
- rhywiol
- ariannol
- emosiynol

**Cam-drin domestig a phobl ifanc**

- Gall pobl ifanc yn y grŵp oedran 16 i 17 ddioddef trais a cham-drin domestig hefyd.

**Ymddygiad sy’n rheoli**

Mae ymddygiad sy’n rheoli yn amrywiaeth o weithredoedd sydd wedi'u cynllunio i wneud person yn is a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu o ffynonellau o gymorth, camfanteisio ar ei adnoddau a'i alluoedd er budd personol, ei amddifadu o'r hyn y mae arno ei angen i sicrhau annibyniaeth, y gallu i wrthsefyll a dianc, a rheoleiddio ei ymddygiad bob dydd.

**Ymddygiad gorfodi**

Mae ymddygiad gorfodi yn weithred neu'n batrwm o ymosodiadau, bygythiadau, cywilyddio a bygythiadau neu unrhyw gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn dioddefwr.

Daeth trosedd ymddygiad gorfodi neu reoli i rym ym mis Rhagfyr 2015. Mae'n arwain at uchafswm o 5 mlynedd o garchar, dirwy neu'r ddau. Gall dioddefwyr sy'n profi ymddygiad gorfodi a rheoli nad yw'n drais corfforol difrifol, ond sy'n gyfystyr â cham-drin seicolegol ac emosiynol eithafol, roi gweithrediadau erlyn y cyflawnwr ar waith.

Mae gwybodaeth am y gefnogaeth y gall y cyngor ei chynnig i bobl sy'n profi cam-drin domestig ar gael ar wefan CBSP.

### Atodiad E

## Adroddiad diogelu (atgyfeiriad) Plant

# Adroddiad Diogelu

**Os oes angen copi Cymraeg o'r ffurflen Cais am Help arnoch, neu os byddai'n well gennych i'r Asesiad gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, cysylltwch â'r blwch post Cymorth Cynnar.**

**Cofiwch, os oes pryderon diogelu, bydd y ffurflen hon yn cael ei rhannu â'r Gwasanaethau Plant heb ganiatâd, yn unol â Rhwymedigaethau Statudol. Ar gyfer atgyfeiriadau Cymorth Cynnar, mae angen caniatâd ac ni dderbynnir y ffurflen heb ganiatâd. Llenwch y ffurflen mor llawn â phosib.**

| 1. Manylion yr Ymarferydd/Unigolyn sy'n Gwneud yr Atgyfeiriad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw | | Teitl y Swydd | | Asiantaeth/<br>Tîm | |
| Dyddiad yr Atgyfeiriad | | Amser | | Ffôn/E-bost | |

| 2. Manylion y Plentyn/Person Ifanc *(ychwanegwch unrhyw enwau ychwanegol ar daflen ar wahân)* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw Cyntaf | Enw Diwethaf | Oedran | Dyddiad Geni/DGD | Cyfeiriad | Rhywedd | Ethnigrwydd | Iaith 1af | Crefydd |
| | | | | | | | | |

| 3. Rheswm Dros yr Atgyfeiriad | |
|---|---|
| Amlinellwch eich pryderon am y plentyn/plant yma a beth yw'r dystiolaeth<br>(Gweithdrefnau Diogelu Cymru) | (Rhowch fanylion) |
| Ydych chi'n teimlo bod y plentyn yn wynebu risg o niwed ac angen ei ddiogelu h.y. niwed corfforol, rhywiol, emosiynol neu esgeulustod. | (Rhowch fanylion) |

| | |
|---|---|
| (Gweithdrefnau Diogelu Cymru) | |
| Oes pryderon am alluoedd magu plant y gofalwyr? | (Rhowch fanylion) |
| Rhowch fanylion am unrhyw gymorth sydd wedi bod yn cael ei ddarparu neu sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd. E.e. teulu, asiantaethau, Cymorth Cynnar, Gwasanaethau Iechyd neu Blant ac ati... | (Rhowch fanylion) |
| Beth sy'n mynd yn dda i'r plentyn / person ifanc? e.e. perthnasoedd cadarnhaol rhwng oedolion, beth sy'n mynd yn dda (teulu, ysgol, cymuned), cyfeillgarwch cyfoedion, cymryd rhan mewn dysgu, diddordebau, gobeithion, uchelgeisiau, rhagolygon cadarnhaol ac ymdeimlad o'r hunan, datryswr problemau da, ac ati | Rhowch fanylion) |
| Beth mae'r teulu hwn ei angen i newid yn eich barn chi? h.y cefnogaeth ymddygiad, cefnogaeth ariannol | (Rhowch fanylion) |
| Oes unrhyw rwystrau / risgiau i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir? | (Rhowch fanylion) |

| | |
|---|---|
| Ydi'r gofalwr / Plentyn yn ymwybodol o'r atgyfeiriad hwn? | Ydi/Nac Ydi |
| A ofynnwyd am ganiatâd? | Do/Naddo<br><br>Os Naddo, pam? |
| Barn y Rhieni / Plentyn (ydych chi wedi trafod yr atgyfeiriad hwn gyda'r rhiant/plentyn), os felly, pa ganlyniadau maent am eu cyflawni? | Manylwch …… |

| 4. Prif Ofalwyr Plentyn (Plant)/Person Ifanc | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw Diwethaf y Gofalwr | Enw Cyntaf y Gofalwr | Perthynas i'r plentyn | Cyfrifoldeb Rhiant? | Rhywedd | Dyddiad Geni / Oedran | Ethnigrwydd os yw'n hysbys | Crefydd |
| | | | | | | | |

| Rhowch gyfeiriad(au) y gofalwr yma os yw'n wahanol i un y plentyn (plant): | Cod(au) Post | Ffôn / Symudol |
|---|---|---|
| | | |

| 5. Aelodau Eraill y Cartref neu Bobl Arwyddocaol ym Mywyd y Plentyn/Person Ifanc *(os yw'n hysbys)* |
|---|

| Enw Cyntaf | Enw Diwethaf | Dyddiad Geni / Oedran | Cyfeiriad | Rhywedd | Ethnigrwydd os yw’n hysbys | Perthynas i’r plentyn | Crefydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| Oes unrhyw anghenion cyfathrebu/dehongli ar gyfer y plentyn a/neu'r teulu? | (Rhowch fanylion) |
| Oes gan y plentyn a/neu'r teulu anabledd neu anghenion iechyd penodol? | *(Rhowch fanylion)* |

**Atodiad F**

## Ffurflen Atgyfeirio Oedolyn Mewn Perygl (Ebrill 2016) – Cyfrinachol

| | |
|---|---|
| Dyddiad hysbysu / mynegi pryder: | |
| Dyddiad y digwyddiad(au): | |
| Dyddiad derbyn gan DLM: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1. Manylion yr Oedolyn mewn Perygl** | Rhif Adnabod y Cleient / Claf: | | |
| Enw Diwethaf: | | Enw Cyntaf: | |
| Dyddiad Geni: | | Oedran: | |
| Rhywedd: | Gwryw □ Benyw □ | | |
| Cyfeiriad: | | Cod Post | |
| Rhif Ffôn: | | Ethnigrwydd: | |
| Angen cyfieithydd? | Oes □ Nac oes □ | Iaith a Ffafrir: | |
| Enw a Chyfeiriad meddyg teulu: | | Rhif ffôn meddyg teulu: | |
| Oes gan yr oedolyn sydd mewn perygl salwch / anabledd neu anghenion penodol? | □ Anabledd Corfforol/Henoed Bregus<br>□ Anabledd Dysgu<br>□ Iechyd Meddwl Swyddogaethol<br>□ Iechyd Meddwl Organig (Dementia)<br>□ Colli'r Golwg/Dall/Golwg Rhannol<br>□ Colli'r Clyw/Byddar<br>□ Problemau Camddefnyddio Sylweddau | | |
| Ydi'r oedolyn mewn perygl yn ddarostyngedig i unrhyw bwerau deddfwriaethol? E.e. DoLS, Deddf Iechyd Meddwl, Pŵer Atwrnai? | | | |
| Perthynas Agosaf: | | Perthynas: | |
| Cyfeiriad: | | | |
| Rhif Ffôn: | | | |
| Oes unrhyw bersonau mewn perygl eraill yn byw yn yr eiddo? | | | |

| | |
|---|---|
| Rhowch fanylion unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'i ofal. | |
| Pa gam gweithredu sydd wedi'i roi ar waith i ddiogelu'r oedolyn sydd mewn perygl? | |

| **2. Caniatâd / Galluedd yr Oedolyn mewn Perygl** | Cofiwch gynnwys manylion am unrhyw asesiadau galluedd diweddar. |
|---|---|
| Ydi'r oedolyn sydd mewn perygl yn cael unrhyw anhawster cyfathrebu? (Esboniwch) | |
| Oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad oes gan yr oedolyn sydd mewn perygl alluedd meddyliol i gydsynio i'r atgyfeiriad hwn? | |
| Ydi'r oedolyn mewn perygl wedi cydsynio i'r atgyfeiriad hwn? Os nad yw, esboniwch y rhesymau pam. | |
| Os oes gan yr oedolyn sydd mewn perygl alluedd, a yw'n cydsynio i'w wybodaeth gael ei rhannu ag asiantaethau eraill? | □ Heddlu<br>□ Iechyd<br>□ Prawf |
| Beth yw barn a dymuniadau'r oedolyn sydd mewn perygl? | |
| Oes rheswm budd cyhoeddus sy'n cyfiawnhau rhannu'r pryder hwn heb ganiatâd? Esboniwch. | |

| **3. Am y cam-drin honedig** | |
|---|---|
| Math o gam-drin honedig: | □ Corfforol<br>□ Rhywiol<br>□ Emosiynol/Seicolegol<br>□ Ariannol<br>□ Esgeulustod |
| Lleoliad y cam-drin honedig: | □ Eich Cartref Eich Hun □ Cartref Perthynas<br>□ Cartref Gofal Preswyl □ Cartref Gofal Nyrsio<br>□ Tenantiaeth â Chymorth □ Cartref Troseddwr<br>□ Ysbyty □ Gofal Dydd<br>□ Man Cyhoeddus □ Llety Gwarchod<br>□ Cynllun Bywydau a Rennir □ Sefydliad Addysgol<br>□ Arall |

| | |
|---|---|
| | *Lleoliad penodol E.e. Ward/Cartref Gofal ………….……. |
| Ydi'r cam-drin yn | Cyfredol ◻ Hanesyddol ◻ |
| Disgrifiad o'r cam-drin / anafiadau honedig: (Llenwch fap y corff os yw'n berthnasol) | |
| Oes unrhyw risgiau pellach? Os oes, esboniwch. | |

| **4. Manylion y cyflawnw(y)r honedig** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw Diwethaf: | | Enw Cyntaf: | |
| Dyddiad Geni: | | Oedran: | |
| Cyfeiriad: | | Cod Post: | |
| Rhif Ffôn: | | | |
| Perthynas i'r oedolyn mewn perygl | | | |
| Ydi'r cyflawnwr yn oedolyn mewn perygl? Os ydyw, esboniwch pam. | | | |
| Os yw'r cyflawnwr yn oedolyn mewn perygl, oes ganddo alluedd i ddeall ei weithredoedd? | | | |
| Galwedigaeth: | | Cyflogwr | |
| Ydi'r cyflawnwr honedig yn ymwybodol o'r atgyfeiriad? | Ydi ◻ Nac ydi ◻ | | |

Cyflawnwr ychwanegol ◻ (agorwch focs cyflawnwr newydd)

| **5. Manylion Tyst(ion)** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw Diwethaf: | | Enw Cyntaf: | |
| Dyddiad Geni: | | Oedran: | |
| Cyfeiriad: | | Cod Post: | |
| Rhif Ffôn: | | | |
| Galwedigaeth: | | | |
| Perthynas i'r oedolyn mewn perygl: | | | |
| Ydi'r tyst yn oedolyn mewn perygl? Os | | | |


| | |
|---|---|
| ydyw, esboniwch pam. | |

Tyst ychwanegol □ (agorwch focs tyst newydd)

| **6. Pwy sydd wedi mynegi'r pryder?** | Dyma'r person cyntaf y gwnaed y datgeliad iddo gyntaf – gall fod yn aelod o'r teulu, yn dyst, neu'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r oedolyn sydd mewn perygl | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | | |
| Dyddiad Geni: | | Oedran: | |
| Cyfeiriad: | | Cod Post: | |
| Rhif Ffôn: | | | |
| Galwedigaeth: | | Cyflogwr: | |
| Perthynas i'r oedolyn mewn perygl: | | | |
| Ydi'r hysbyswr yn dymuno aros yn ddienw?<br>Os ydyw, esboniwch pam. (ac eithrio gweithwyr proffesiynol) | | | |

| **7. Pwy sy'n cyflwyno'r VA1?** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | | |
| Galwedigaeth / Manylion Cyflogwr: | | | |
| Cyfeiriad: | | Cod Post: | |
| Rhif Ffôn: | | | |
| Dyddiad / Amser cyflwyno | | | |

| **8. Gwybodaeth ychwanegol** | |
|---|---|
| | |

| |
|---|
| Rhowch fanylion am unrhyw anafiadau, marciau, cleisiau, briwiau ac ati: |
| Defnyddiwch yr adran hon i nodi lleoliad unrhyw farciau, cleisiau, briwiau ac ati.  |